

JOAN SALTER



YMDDIRIEDOLAETH
DIWRNOD COFIO'R
HOLOCAST

Mae Joan Salter yn blentyn orosodd yr Holocaust. Cafodd ei geni'n Fanny Zimetbaum ym Mrwsel ar 15 Chwefror 1940 i rieni Iddewig Pwyleg. Roedd yn dri mis oed pan heidiodd y Naziiaid i Wlad Belg.



Yr atgof mwyaf ingol o bawb o'r gorffennol yw llun y does o hyd iddo yn archif Portiwgeaidd y Groes Goch. Mae'n llun o grŵp o 14 o blant... Yn y blaen mae merch fach fain tair blwydd a hanner. Dyma Fanny Zimetbaum - y plentyn fuas i rywdro'

Roedd Jakob, tad Joan yn credu y byddai'r Almaenwyr yn martsio'n syth i Ffrainc ac na fydden nhw'n ymosod ar Wlad Belg. Felly ar ddiwedd 1939 symudodd Jakob a'i wraig Bronia i Frwsel lle y ganwyd Joan ychydig fisoedd yn ddiweddarach. Ar ôl goresgyniad yr Almaenwyr o Wlad Belg ym mis Mai 1940, allgludwyd tad Joan ynghyd â'r holl ddyinion dros 15 oed nad oedd yn frodorion. Aeth ei mam â Joan a'i chwaer i Baris, gan bod ei thad o'r farn ei bod yn fwy diogel, ac aeth hi â nhw'r holl ffordd trwy Ffrainc Vichy a dros y mynyddoedd yn y pen draw i Sbaen ar ddechrau 1943.

Joan mewn digwyddiad Diwrnod Cofio'r Holocaust yng Nghanolfan Ddiwylliannol Iddewig Llundain ©Joan Salter

'Cawsom ein dal ar y ffin – ond yn ffodus, heddlu Sbaen ddaliodd ni. Rhoddwyd fy chwaer mewn lleiandy a ches i aros gyda fy mam mewn carchar yn Figueres, [Sbaen]...Roedd y gwarchodwyr yn gadael i'r plant grwydro'n rhydd a byddai'r bobl leol yn dod â bwyd a sigarennau i mam.'

Addawodd llywodraeth Vichy rhwydd hynt i blant gyda rhieni Pwyleg. O dan ofal y Groes Goch, byddai'r plant yn cael gadael Ffrainc i deithio i America trwy borthladd niwtral Lisbon, ym Mhortiwgal. Bu rhaid i fam Joan wneud y penderfyniad anodd i adael i'w phlant fynd neu i'w cadw gyda hi a'r perygl posibl o alltudiaeth.

'Ym mis Mehefin 1943, cefais fy rhoi ar gwch o Lisbon i Unol Daleithiau America... nid oedd ein mordaith heb beryglon. Er ei bod yn arddangos baner gwlad niwtral, ataliwyd ein llong, y *Serpa Pinto*, gan long danfor Almaenig... Daeth yr Almaenwyr ar ein llong... Wrth i ni sefyll, yn dawel a phryderus ar y dec, dychwelodd y tanforwyr i'w llong a suddo'n gyflym a diflannu. Parhaodd y *Serpa Pinto* yn ddiogel dros Fôr yr Iwerydd.

'Ar ôl cyrraedd yr UDA cawsom archwiliadau iechyd a'n hanfon i gartref i blant amddifad... Daeth Dr a Mrs Farrell, meddyg lleol a'i wraig, yn rhieni maeth i mi. Roeddwn yn ddigon ifanc i addasu i'm bywyd newydd... Cafodd fy enw ei newid i Joan, a fy iaith o Ffrangeg i Americanaidd. Am yr ychydig flynyddoedd nesaf,

trawsffurfiodd y Bwyles fach Fanny Zimetbaum yn Americanaes drwyddi draw, Joan Farell.

'Ond yna daeth y rhyfel i ben. Cymerodd gryn amser i'r asiantaethau ffoaduriaid i leoli teuluoedd a holltwyd... Dim ond yn 1947 y cefais fy aduno gyda fy rhieni yn Llundain. Efallai bod hwn yn ymddangos fel 'diwedd stori tylwyth teg' ond roedd hynny'n bell ohoni.

'Roedd y ddau wedi trawmateiddio'n wael... I mi, yn edrych trwy lygaid plentyn, roedd eu hymddygiad yn ymddangos yn afresymol, annealladwy... Roedd iechyd, ysbryd a meddyliau fy rhieni wedi torri... a heb eu paratoi i ddelio â'u plant crac, oedd wedi'u dieithrio yn dychwelyd atyn nhw. Treuliais i'r deng mlynedd nesaf yn mynd 'nôl a 'mlaen rhwng fy nau deulu, yn cael fy nrysu fwyfwy o ran pwy oeddwn i mewn gwirionedd. Nid yw llencyndod unrhyw un yn hawdd; roedd f'un i'n hunllef.



Joan mewn cartref plant amddifad yn Philadelphia yn 1944 © Joan Salter

'Er ei fod yn rhy boenus i fy mam ddychwelyd i'r gorffennol o'i gwirfodd, roedd fy nhad a finnau'n gallu cael rhywfaint o heddwch yn ein perthynas o leiaf, wrth i ni deithio nôl trwy ei atgofion.

'Nid dim ond yr hyn yr adroddodd i mi lwyddodd i ail-greu'r gorffennol i mi... Yr atgof mwyaf ingol o bawb o'r gorffennol yw llun y does o hyd iddo yn archif Portiwgeaidd y Groes Goch. Mae'n llun o grŵp o 14 o blant; mae'r trawma y bu'n rhaid iddyn nhw fyw drwyddo yn amlwg ar eu hwynebaw. Yn y blaen mae merch fach fain tair blwydd a hanner. Dyma Fanny Zimetbaum – y plentyn fues i rywdro.

'Dim ond nawr, 60 mlynedd yn ddiweddarach, rwy'n gallu agor y drws y cloes i Fanny yn sownd y tu ôl iddo am gymaint o flynyddoedd.'

Ymwelodd Joan â Gwlad Pwyl am y tro cyntaf dros ddeng mlynedd yn ôl ac aeth i Tarnow, sef cartref ei thad. Nawr mae'n dychwelyd yn flynyddol i fynychu seremoni ym mis Mehefin, ar ben-blwydd yr wythnos yr allgludwyd y rhan fwyaf o Iddewon Tarnow, sy'n cael ei gynnal yn y goedwig ac mewn gwahanol rannau o'r dref.

'Mae'n teimlo fel fy mod yn adennill fy nheulu, er na ches i fy ngeni yng Ngwlad Pwyl, a gadael iddyn nhw wybod fy mod yn eu cofio o hyd.



I gael rhagor o wybodaeth:

- Darllenwch ragor am [yr Holocost](#) ar wefan Ymddiriedolaeth Diwrnod Cofio'r Holocost
- Salter, J, 'A Family Apart', The Child Survivors' Cymdeithas Ffoaduriaid Iddewig Prydain Fawr, *We Remember: Child Survivors of the Holocaust Speak*, 2011
- ['Interview with holocaust survivor, Joan Salter'](#), *The Waterfront Online*, 24 Chwefror 2014

Y grŵp yng ngofal y Groes Goch a anfonwyd i'r UDA ym mis Mehefin 1943 (Joan yw'r plentyn ieuengaf yn y blaen) © Joan Salter